**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Safonau

**Ystafell Bwyllgor 5, Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Gwener, 13 Hydref 2017 am 9.35 am**

**Yn Bresennol**: Jill Burgess (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| Y Cynghorydd(wyr) | Y Cynghorydd(wyr) | Y Cynghorydd(wyr) |
|---|---|---|
| J A Hale | | |

| Aelodau Cyfetholedig(wyr) | Aelodau Cyfetholedig(wyr) | Aelodau Cyfetholedig(wyr) |
|---|---|---|
| Philip Crayford | Michaela Jones | Margaret Williams |
| Gareth Evans | Mike Lewis | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Huw Evans | Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd |
| Allison Lowe | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |
| Tracey Meredith | Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Democrataidd a Deallusrwydd Busne a Swyddog Monitro |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): M B Lewis a/ac L G Thomas

---

## 11 Croeso a Chyflwyniadau.

Dechreuodd y Cadeirydd y cyfarfod drwy groesawu Michaela Jones a Mike Lewis, y ddau aelod annibynnol newydd i'r pwyllgor, a chafwyd cyflwyniadau gan bawb a oedd yn bresennol.

## 12 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, datganwyd y buddiannau canlynol:

1) Datganodd y Cynghorydd J A Hale ddiddordeb personol yng nghofnod rhif 13 "Cofnodion" gan fod ei gais am oddefeb wedi cael ei ystyried yn y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 7 Gorffennaf 2017.

## 13 Cofnodion

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 7 Gorffennaf 2017 fel cofnod cywir.

## 14 Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau 2016-2017.

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd adroddiad a oedd yn amlinellu gwaith y Pwyllgor Safonau ar gyfer blwyddyn ddinesig 2016-2017.

Byddai'r Cadeirydd yn cyflwyno adroddiad i'r cyngor yn ei gyfarfod ar 26 Hydref 2017.

**Penderfynwyd** y byddai Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau ar gyfer 2016-17 yn cael ei gymeradwyo a'i drosglwyddo i'r cyngor er gwybodaeth yn amodol ar newid paragraff 10.1.

## 15 Adroddiad Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau - Cyhoeddus Cymru 2016-2017.

Cyflwynodd y Swyddog Monitro adroddiad 'er gwybodaeth' i'r Pwyllgor Safonau ar adroddiad blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar gyfer 2016/17.

Nododd y pwyllgor fod yr Ombwdsmon wedi canfod bod nifer y cwynion ynghylch y côd ymarfer wedi gostwng 14% sy'n galonogol. Serch hynny byddai'r pwyllgor yn monitro ffigurau Abertawe dros yr ychydig flynyddoedd nesaf i sicrhau na cheir tuedd ar i fyny.

Gofynnodd y pwyllgor hefyd am yr achosion a dynnwyd yn ôl o ran Cyngor Cymuned y Mwmbwls gan fod y rhif i weld yn uchel iawn. Roeddent hefyd yn teimlo er mwyn gwella safonau cynghorwyr y byddai'n ddefnyddiol cael mwy o wybodaeth am natur y cwynion a wnaed.

**Penderfynwyd** y dylid:

1) Nodi'r adroddiad;
2) Trefnu bod y Swyddog Monitro'n cysylltu â'r Ombwdsmon i gadarnhau faint o fanylion y gellir eu darparu i'r Pwyllgor Safonau o ran cwynion.

## 16 Llyfr Achosion Côd Ymddygiad.

Cyflwynodd y Swyddog Monitro adroddiad 'er gwybodaeth' i roi’r diweddaraf i’r Pwyllgor Safonau am Lyfr Achosion Côd Ymddygiad yr Ombwdsmon.

Roedd y Llyfr Achosion yn cynnwys y cyfnod rhwng mis Mawrth a mis Gorffennaf 2017 - rhifyn 13, Gorffennaf 2017.

Amlinellodd y crynodebau o'r achosion ar dudalennau 134 a 135 yn y pecyn agenda lle ni chafwyd unrhyw dystiolaeth o dor achosion ac nid oedd angen gweithredu ar yr achosion ar dudalennau 136-137.

Teimlai'r pwyllgor o ran achosion 2 a 3 Cyngor Sir Powys a Chyngor Tref Saltney y dylai'r achosion hyn fod wedi cael eu cyfeirio'n ôl i'r Pwyllgor Safonau gan ei fod wedi ystyried y ceisiadau gwreiddiol am oddefebau o ran y cynghorwyr dan sylw.

Gofynnodd y Pwyllgor i'r Swyddog Monitro a fyddai'n fodlon ysgrifennu at yr Ombwdsmon i fynegi ei bryderon.

**Penderfynwyd** ar y canlynol:

1) Dylid nodi'r adroddiad;
2) Dylai’r Swyddog Monitro ysgrifennu at yr Ombwdsmon i amlinellu'r pryderon a fynegwyd gan y Pwyllgor Safonau.

**17 Torri Côd Ymddygiad - Cwynion a wnaed i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC).**

Darparwyd rhestr o gwynion i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (PSOW) mewn perthynas â thorri'r Côd Ymddygiad gan y Swyddog Monitro.

Teimlai'r pwyllgor yr hoffai gael mwy o wybodaeth am natur y cwynion sy'n cael eu derbyn.

**Penderfynwyd** y byddai'r adroddiad yn cael ei nodi.

**18 Cynllun Gwaith 2017-2018.**

Amlinellodd y Swyddog Monitro a Phennaeth y Gwasanaethau Democrataidd yr eitemau ychwanegol canlynol i'r cynllun gwaith:

- Cyfarfodydd gydag Arweinwyr Grwpiau Gwleidyddol, Cadeiryddion Pwyllgorau, Cynghorwyr Meinciau Cefn a Chlercod/Cadeiryddion Cynghorau Cymuned/Tref;
- Y diweddaraf am Gynghorau Cymuned/Tref sydd wedi mabwysiadu'r Protocol Anghydfodau Lleol;
- Unrhyw ddogfennau ymgynghori sy'n ymwneud â phwerau'r Ombwdsmon ynghylch materion y côd ymddygiad.

**19 Gwahardd y cyhoedd.**

Gofynnwyd i'r pwyllgor wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod er mwyn iddo ystyried yr eitem fusnes/eitemau busnes a nodwyd yn argymhelliad yr adroddiad ar y sail ei/eu bod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel y nodir ym mharagraff gwahardd 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad i Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007 mewn perthynas ag eitemau busnes a nodir yn yr adroddiad.

Ystyriodd y Pwyllgor Brawf Budd y Cyhoedd wrth benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem fusnes/eitemau busnes lle'r oedd Prawf Budd y Cyhoedd yn berthnasol fel a nodir yn yr adroddiad.

**Penderfynwyd** y dylid gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitemau busnes canlynol.

**(Sesiwn Gaeëdig)**

## 20 Ceisiadau am Ollyngiad.

Darparodd y Swyddog Monitro adroddiad i ystyried cais am oddefeb mewn perthynas â'r cynghorydd canlynol:

i) S J Gallagher

Wrth ystyried caniatáu goddefebau, rhaid i'r pwyllgor gydbwyso budd y cyhoedd wrth atal aelodau â budd rhagfarnol rhag cymryd rhan mewn penderfyniadau, yn erbyn budd y cyhoedd mewn penderfyniadau a gymerir gan grŵp cynrychioladol o aelodau'r awdurdod.

Bydd methu caniatáu goddefeb sy'n golygu na fydd cworwm gan awdurdod neu bwyllgor, yn gallu bod yn sail i ganiatáu goddefeb.

i) **Penderfynodd** y Pwyllgor Safonau roi goddefeb i'r Cynghorydd S J Gallagher dan baragraffau 2(d) a Rheoliadau (Caniatáu Goddefebau) (Cymru) 2001 (fel a ddiwygiwyd), fel a ganlyn:

Aros, siarad a phleidleisio a gwneud sylwadau llafar ac ysgrifenedig o ran materion sy'n ymwneud ag Addysg.

**Ni** fydd yr oddefeb yn gymwys os yw'r cynghorydd yn dod yn ymwybodol o unrhyw effaith ar berson cysylltiedig (o fewn ystyr paragraff 10 (2) (c) y Côd Ymddygiad) sy'n ymwneud â'i fab ac sy'n benodol iddo.

Daeth y cyfarfod I ben am 10.43 am

**Cadeirydd**